Bore da. Jan Williams ydw I Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe. Bore da.

Jan Williams ydw i Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe. A chroeso cynnes. Croeso Mawr Rydw i wedi bod yn gadeirydd yma ers 1 Mehefin. Ond nid wyf yn ddieithr i'r GIG mewn unrhyw ffordd, a dwi sicr ddim yn ddieithr i Fae Abertawe.

Yn wir, er gwaethaf gweithio ymhellach i ffwrdd, yr wyf wedi byw yn ardal Bae Abertawe am fy holl fywyd, ac yr wyf yn angerddol am wasanaethu ein poblogaeth yn y ffordd orau posibl. Rwyf hefyd yn angerddol am ein staff a'u hiechyd a'u lles. Dyna pam penderfynais wneud cais am rôl y cadeirydd, a dyna pam yr wyf am benodi Prif Weithredwr rhagorol i arwain ein sefydliad i'r hyn sy'n ddyfodol cyffrous iawn yn fy mharn i.

Fel sefydliad, mae gennym eisioes weledigaeth deg mlynedd feiddgar ac uchelgeisiol i ddod yn sefydliad o ansawdd uchel. A rydym ni'n mynd i gyrraedd yno trwy fabwysiadu ein dull Un Bae ar y cyd, dull sy'n ein gweld ni i gyd yn tynnu at ein gilydd i ddarparu'r system gofal iechyd integredig orau bosibl i'n poblogaeth.

Er mwyn llwyddo, mae angen arweinydd rhagorol arnom a all osod y naws a'r diwylliant cywir, ysgogi ymddygiadau cadarnhaol a fydd yn ein helpu i lywio ein ffordd drwy rai o'n heriau mawr o rhan perfformiad ariannol ac anghydraddoldebau iechyd yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu fod angen arweinydd arnom sydd yn gwybod sut i gyflawni cynaliadwyedd gwasanaeth ac ariannol yn y tymor hir, tra'n optimeiddio ansawdd ac effeithlonrwydd yn y modelau darparu presennol. A hynny yn erbyn cefndir o fod dan fwy o graffu ar hyn o bryd fel rhan o drefniadau cynyddu ac ymyrryd Llywodraeth Cymru. Ond mae angen arweinydd arnom hefyd a all ein harwain ymhellach.

Arweinydd sy'n gwybod sut olwg sydd ar ddaioni a sut i fynd o dda i fawr. Rydym am ddod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda, gan arwain system iechyd a gofal integredig sy'n perfformio'n dda, gan wella iechyd ein poblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Rydym am ddatgloi potensial ein staff ymroddedig a thalentog. Rydym am ddatgloi potensial ein gwaith partneriaeth. Oherwydd heb ein partneriaid, ni allent llwyddo. mae partneriaeth yn rhan annatod o fusnes dyddiol y Bwrdd Iechyd, ac rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau. ac rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau. Rydym am weithio gyda phartneriaid mewn ffordd sy'n ein symud dros amser, o driniaeth i atal, yn unol â'n strategaeth iechyd poblogaeth gynhwysfawr. Yn wir.

Yn wir, mae arwain corff iechyd pologaeth strategol £1.4 biliwn gyda 13,000 aelod staff talentog ac ymroddedig a bod yn gyfrifol am system iechyd a gofal integredig yn gyfrifoldeb enfawr, yn gyfle enfawr, ond yn fraint. yn enwedig pan fo'r sefydliad eisoes yn bwriadu dod yn sefydliad o ansawdd uchel dros y ddeng mlynedd nesaf. A dyna'r weledigaeth y mae ein staff wedi helpu i'w datblygu a'i chreu, ac yn enwedig lle mae gennym y potensial i arwain y ffordd yng Nghymru, fel y credaf yn fawr iawn y gallen ac y dylem ei wneud.

I gyrraedd yno, mae angen y Prif Weithredwr gorau arnom ac rwy'n mawr obeithio mai chi yw hwnnw.

Mae Bae Abertawe yn lleoliad hardd, dyrchafol, fel y gwelwch o'r cefndir y tu ôl i mi. Mae Gŵyr yn ardal o harddwch naturiol eithriadol ac mae gennym Barc Coedwig Afan yng Nhastell -nedd, Port

Talbot bob amser. Mae ansawdd bywyd sydd ar gael ym Mae Abertawe heb ei ail. Ac mae cynhesrwydd y rhai sy'n byw yma yn enwog, yn yr un modd â'r croeso rydyn ni I gyd yn ei roi i'r rhai sy'n ymuno â ni.

Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn dod o hyd i fwy o wybodaeth am eich hun. Ac os ydych yn credu bod gennych yr agwedd, y sgiliau a'r profiad rydym yn chwilio amdano, rwy'n mawr obeithio y byddwch yn gwneud cais am y rôl ac edrychaf ymlaen at glywed gennych. Diolch yn fawr a phobl lwc.

Diolch yn fawr am wylio a phobl lwc. Os ydych yn ymgeisio.